Treuliodd aelodau Clwb Sbondonics orig un prynhawn yn Theatr y Werin, Aberystwyth yn gweld perfformiad yn portreadu rhai cymeriadau allan o lyfrau Cymraeg. Mwynhaodd pawb y Sbonsho arbennig yma.

Rhaid llongyfarch aelodau'r tîm a gymerodd ran yn rownd derfynol y cwis ail iaith gan roi cynnig teg a chanmoladwy iawn. Gwell hwyl eto y tro nesaf.

Llongyfarchiadau hefyd i Alun Price am dderbyn cymeradwyaeth yng nghystadleuaeth arlunio dan nawdd Llyfrgell Dyfed.

Erbyn hyn mae'r plant yn cael cryn hwyl yn chwarae gemau tymor yr haf, sef tenis a chriced a chael blas reit dda arnynt hefyd.

Edrychwn ymlaen yn awr at ein hymweliad ag Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghwm Gwendraeth adeg y Sulgwyn. Yna ar Fehefin 9ed cynhelir Ffair Haf yr ysgol am 6 o'r gloch. Gobeithio y cawn noson braf a llewyrchus eto eleni.